

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 11 Mehefin 2019 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trwyddedu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cyngorydd D Williams Y Cyngorydd S Bradwick
Y Cyngorydd E Webster Y Cyngorydd T Williams
Y Cyngorydd W Lewis Y Cyngorydd S Morgans
Y Cyngorydd A Cox Y Cyngorydd L Jones

Swyddogion oedd yn bresennol

Ms L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd
Ms R Hope, Rheolwr Gwasanaeth Trwyddedu a Diogelu Iechyd
Mr G Black, Rheolwr Cymunedau Diogel a Phartneriaethau Strategol
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol
Mr A Morgan, Swyddog Gorfodi Trwyddedu
Mr N Evans, Swyddog Gorfodi Trwyddedu

1 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

2 Ymddiheuriadau

Cafodd ymddiheuriadau am absenoldeb eu derbyn gan Gyngorwyr Fwrdeistref Sirol S. Powderhill a P. Howe.

3 Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn

PENDERFYNWYD nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn.

4 Cofnodion

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2019 yn rhai cywir.

5 Ystyried Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 08.04.19 - 26.05.19

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd fanylion i'r Aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod 8 Ebrill 2019 i 26 Mai 2019 a **PHENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

6 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

7 Ystyried y ceisiadau canlynol ar gyfer Trwyddedu a/neu gofrestru:

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd fanylion y cais canlynol am adolygu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr R.R. o Gaerffili ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais am adolygu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat ger bron y Pwyllgor.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r dystiolaeth ger ei fron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor ddirymu'r drwydded ar unwaith oherwydd bod Mr R.R. wedi methu â bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn berson addas a phriodol i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

8 Crynodeb Gorfodi (gan gynnwys data apeliadau/erlyniadau) ar gyfer y cyfnod: 13.04.19 - 31.05.19

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 13 Ebrill 2019 i 31 Mai 2019. **PENDERFYNODD** yr Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad.

9 Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth awdurdod dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 08.04.19 - 26.05.19

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd adroddiad i'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 8 Ebrill 2019 i 26 May 2019.

PENDERFYNODD y Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.55 pm

**Y Cynghorydd A Fox
Cadeirydd.**